

Polisi Preifatrwydd Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad.

Sefydliad gwirfoddol yw Cyngor Cymuned Llanfuhangel Ystrad a sefydlwyd gan statud gan yr Awdurdod Lleol a'i redeg gan drigolion lleol i weithredu ar ran ei ardal. Fel yr haen fwyaf lleol o gynrychioliaeth etholedig, mae Cyngorau Cymuned ar draws y DU yn chwarae rhan bwysig mewn democratiaeth leol.

Yn ogystal â chynrychioli'r gymuned i'r awdurdod lleol, mae Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad yn hwyluso ystod eang o weithgareddau sy'n hybu lles y cymunedau mae'n ei gynrychioli. Mae'r Cyngor yn dod â phobl leol at ei gilydd i helpu i wneud i bethau ddigwydd, ac yn amddiffyn a hyrwyddo hunaniaeth ei gymuned.

Gweithredir gofynion GDPR gan Gyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad yn gyfreithlon er cyflawni'r datganiad gweithredu uchod sy'n cael ei dderbyn gan Gyngorwyr fel rhan o'u haddewid i ymrwmo i'r Cod Ymddygiad.

CANLLAWIAU

Daw'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol i rym yn y Deyrnas Unedig ar 25 Mai 2018, gan gymryd lle Deddf Diogelu Data 1998.

Defnyddio data personol fel rhan o Fusnes y Cyngor Cymuned

Ni does RHAID cael caniatâd rhannu gwybodaeth os ydi'r weithgaredd yn cwmpo o fewn yr eithriadau isod:

- **Cytundebol.** Os ydi'r weithgaredd yn rhan o gytundeb a bod tystiolaeth ar gael sy'n cadarnhau'r cytundeb.
- **Cyfreithlon.** Os ydi'r weithgaredd yn rhan o weithgaredd cyfreithlon y sefydliad. Yn yr achos hwn rhaid pwysu a mesur natur a pherthnasedd y wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn erbyn hawl yr unigolyn.
- **Angnerheidiol.** Os ydi'r wybodaeth yn golgyu peryg bywyd
- **Budd y Cyhoedd.** Os allwch brofi bod rhannu gwybodaeth o fudd l'r cyhoedd.

In the [Report and remaining stages of the Data Protection Bill](#), MPs accepted the Government amendment to exempt all parish and town councils and parish meetings in England and community and town councils in Wales from the requirement to appoint a Data Protection Officer (DPO) under the General Data Protection Regulation (May 2018)

GWEITHREDU

Os bydd unrhyw amryfusedd ynglŷn â rhannu gwybodaeth ac nad yw'n amlwg yn cwmpo o fewn yr eithriadau uchod byddwn yn cysylltu ag unigolion i ddweud pam ein bod yn defnyddio'r data ac yn gofyn am ganiatâd (optio i mewn)

Os bydd y wybodaeth yn newid dros amser, bydd proses resymol ar waith i gael y wybodaeth ddiweddaraf

Bydd tystiolaeth ar gael am wybodaeth a chofnodion 'ry' ni'n eu cadw

Bod â rheolaethau rhesymol ar waith i gadw cofnodion yn ddiogel

Rhannu'r prosesau fel bod pawb yn eu hadnabod.

Byddwn fel cyngor yn penderfynu am ba hyd y mae angen cadw gwybodaeth.

Cynnal archwiliad data ac adolygu'r data wedi cyfnod o amser sydd yn rhesymol ac wedi ei gytuno gan y cyngor.

ARCHWILIAD DATA

C Pa fath o ddata sy'n cael ei gasglu a'i storio, ble a pham?

A Cyfeiriadau e-byst, cyfeiriadau cartref, rhifau ffôn, ceisiadau am nawdd.

Maent yn cael eu storio mewn ffeiliau ac ar gluniadur yn Yr Alma, Cribyn, SA48 7ND

Cânt eu casglu er mwyn i waith y cyngor gael ei wneud yn effeithiol o fewn y gofynion cyfreithiol ac er budd y cyhoedd.

C Sut mae'r data'n cael ei ddefnyddio?

A Cynghorwyr. I gysylltu â chynghorwyr am gyfarfodydd ac i basio gwybodaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawn eu swydd wrth gynrychioli etholwyr.

Etholwyr. Ymateb i'w ymholiadau a rhannu gwybodaeth os oes angen gwybodaeth ychwanegol gan asiataethau allanol e.e. Cyngor Sir er rhoi'r cyngor gorau a'r datrysiaid gorau i'r ymholydd.

C Sut mae'r data yn cael ei gadw?

A Caiff y wybodaeth ei gadw mewn ffeiliau ac ar gluniadur yng nghartref y Clerc.

C Am ba hyd y cedwir y data?

A Cedwir manylion ariannol am 6 mlynedd a hynny am bwrpas treth yn unig.

C Pwy sydd yn gallu gael mynediad at y data?

A Y Clerc a'r Rheolydd Data. Gallwn rannu gwybodaeth am y data a gedwir ar bersonau unigol ar gais ysgrifenedig. Ni fyddwn yn rhannu unrhyw data gyda chwmnïau masnachol nac yn ei werthu ymlaen i unrhyw drydydd parti.

C Fa fesurau sydd yn bodoli i scirhau diogelwch y data?

A Mae angen cyfrinair i gael mynediad i'r wybodaeth sydd ar y gluniadur a chedwir copïau caled mewn cabinet wedi ei glou yn Yr Alma, Cribyn, SA48 7ND